# PWYLLGOR SAFONAU DYDD LLUN, 3 HYDREF 2016

**Yn bresennol**:-

**Aelodau Etholedig:-** Y Cynghorwyr Lesley Day ac Eryl Jones-Williams.

**Aelodau Annibynnol:-** Ms Jacqueline Hughes, Mr Aled Jones, Miss Margaret Jones, Mr David Wareing a'r Dr Einir Young (Cadeirydd)

**Hefyd yn Bresennol:** Iwan Evans (Swyddog Monitro), Sion Huws (Uwch Gyfreithiwr) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorydd Michael Sol Owen a Mr David Clay.

## 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 27 Mehefin, 2016 fel rhai cywir.

## 3. PARATOI AR GYFER ETHOLIADAU LLYWODRAETH LEOL 2017

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Monitro yn atodi adroddiad fu gerbron Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd y Cyngor ar yr 20fed o Fedi ar y gwaith sy'n mynd rhagddo i baratoi ar gyfer anwytho aelodau newydd i'r awdurdod yn sgil etholiadau Mai 2017.

Gofynnwyd i'r pwyllgor ystyried yr adroddiad a chynnig arweiniad ar gyfleoedd hyfforddiant pellach posib' ar y Cod Ymddygiad.

Nododd y Cadeirydd ei bod yn croesawu'r ffaith bod cynlluniau ar y gweill i baratoi ar gyfer yr etholiadau.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

- Ei bod yn hanfodol bwysig bod yr aelodau newydd yn derbyn hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad.
- Bod angen meddwl am fformat sy'n cyflwyno prif bwyntiau'r Cod Ymddygiad i aelodau newydd mewn ffordd hwylus a gafaelgar gan hefyd barchu difrifoldeb y testun.
- Bod angen i'r aelodau newydd gael cyfarwyddyd ar y cychwyn ynglŷn â sut i weithredu dros yr wythnosau cyntaf fel cynghorydd heb dramgwyddo'r Cod Ymddygiad.
- Na chredir bod galw heibio stondin yn y Ffair Wybodaeth ar y dyddiau anwytho yn ffordd ddigonol yn ei hun o gyflwyno'r Cod Ymddygiad i aelodau newydd ac y bydd angen cyflwyniad mwy manwl gan y Swyddog Monitro i ddilyn yn fuan wedyn.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

## 4. TREFN DATRYS LLEOL MODEL CYNGHORAU CYMUNED

Cyflwynwyd – adroddiad llafar gan y Swyddog Monitro yn nodi:-

- Bod y mater hwn wedi'i gynnwys ar raglen waith y Pwyllgor Safonau, ond bellach bod Unllais Cymru wedi cychwyn ar y gwaith o lunio trefn genedlaethol i gynghorau cymuned gyda'r Ombwdsmon, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a swyddogion monitro yn rhan o'r broses hefyd.
- Bod y newyddion hwn i'w groesawu a gobeithid y byddai'r drefn newydd yn creu mecanwaith ymarferol a mwy grymus fydd yn galluogi i gynghorau cymuned ddatrys problemau yn haws.

Yn ystod y drafodaeth, nodwyd y dylid cysylltu ag Unllais Cymru maes o law i awgrymu bod unrhyw hyfforddiant ar y drefn newydd yn cael ei gynnal yn lleol.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

**5. ADRODDIAD BLYNYDDOL YR OMBWDSMON 2015/16**

Cyflwynwyd, er gwybodaeth – adroddiad y Swyddog Monitro yn amgáu'r rhannau hynny o adroddiad blynyddol yr Ombwdsmon am y flwyddyn 2015/16 sy'n berthnasol i gwynion cod ymddygiad ac yn nodi'r hyn sydd gan yr Ombwdsmon i'w ddweud yn ei lythyr blynyddol ynglŷn â chwynion cod ymddygiad.

Nododd y Cadeirydd mai canran fechan o'r cwynion sy'n mynd ymhellach a'i bod yn ymddangos mai parch ac uniondeb yw'r materion sy'n codi fwyaf.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

**6. HONIADAU YN ERBYN AELODAU**

Cyflwynwyd, er gwybodaeth – adroddiad y Swyddog Monitro ar gwynion ffurfiol yn erbyn aelodau.

Nododd yr Uwch Gyfreithiwr fod dwy gŵyn arall i law ers paratoi'r adroddiad ac y byddai'n adrodd arnynt i'r cyfarfod nesaf.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

Dechreuodd y cyfarfod am 11.00 y.b. a daeth i ben am 11.30 y.b.

**CADEIRYDD**